

Eich enw\_\_\_\_\_

Eich cyfeiriad\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Eich côd post\_\_\_\_\_

## Annwyl Aelod o'r Senedd

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch annog i bleidleisio ar 3ydd o Fawrth i ddiddymu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, o ystyried y dystiolaeth lethol o'r niwed economaidd ac amgylcheddol a gaiff y Rheoliadau hyn o'u cymharu â dulliau eraill a gyflwynwyd gan randdeiliaid.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru o'r Rheoliadau, sy'n gyfystyr â chyflwyno Rheoliadau Parthau Perygl Nitradau degawdau oed yr UE ar draws Cymru, yn datgan y byddant yn costio cymaint â £360 miliwn i ffermwyr Cymru mewn costau seilwaith yn unig.

Mae hyn £99 miliwn yn fwy na ffigur Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyfanswm Incwm o Ffermio yng Nghymru yn 2019, ac oddeutu £30 miliwn yn fwy na chyllideb gyfartalog flynyddol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yng Nghymru dros gyfnod ariannu diwethaf PAC.

Mae costau seilwaith o'r fath yn cyfateb i gost gyfartalog fesul daliad yng Nghymru o tua £14,500 - ffigur sy'n codi i gost gyfartalog o tua £25,000 pan ystyrir y rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n ddifrifol yn unig - a dim ond ffigur cyfartalog yw hwn, gyda'r costau i nifer fawr o fusnesau unigol ddegau o filoedd yn fwy.

Mae costau o'r fath yn ychwanegol at y costau cydymffurfio blynyddol a fydd, yn ôl amcangyfrifon yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn filiynau o bunnoedd, sy'n cyfateb i gannoedd o bunnoedd fesul fferm, ar adeg pan mae ffigurau Llywodraeth Cymru'n dangos bod incwm cyfartalog ffermydd wedi gostwng o un rhan o dair yn 2018-19 i £23,600.

Mae hyd yn oed y senarios gyda llai o effaith a gyfrifwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn mesur y costau i ffermio yng Nghymru yn gannoedd o filiynau.

Bydd y ddeddfwriaeth yn golygu cyflwyno rheolau sydd, yn ôl yr ymgyrchydd amgylcheddol, awdur a chynghorydd cynaliadwyedd Tony Juniper – pennaeth Natural England erbyn hyn “...are not necessarily delivering the value we need [in parts of England], so taking...[a]...more flexible approach seems logical.”

Mae hyn yn adleisio methiannau'r un rheoliadau i sicrhau buddiannau amgylcheddol a ddatgelwyd mewn dadansoddiad gwyddonol o ardaloedd a ddynodwyd yn Barthau Perygl Nitradau am rhwng 12 a 15 mlynedd, a ganfu bod “69% o Barthau Perygl Nitradau'n dangos dim gwelliant arwyddocaol o ran crynodiadau o ddŵr wyneb, hyd yn oed ar ôl 15 mlynedd” ac “O'u cymharu â dalgylchoedd rheoli roedd 29% o Barthau Perygl Nitradau'n dangos gwelliant sylweddol, ond roedd 31% yn dangos gwaethygiad sylweddol.”

Hefyd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru, sef prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol, eisoes wedi rhybuddio Llywodraeth Cymru y gall y dull Parthau Perygl Nitradau arwain at "ganlyniad croes i'r bwriad", sef gwaethygu ansawdd y dŵr.

Mewn datganiad a gyhoeddwyd mewn ymateb i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helwriaeth a Bywyd Gwylt wedi dweud ei bod "...yn siomedig gyda chyhoeddiad Llywodraeth Cymru y bydd Cymru gyfan yn cael ei throï'n Barth Perygl Nitradau", a'i bod "Wedi gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru wedi dangos fwy o ddychymyg, a chynnig ateb oedd wedi'i deilwra i'r problemau llygredd amaethyddol a wynebir gennym yng Nghymru. Un sy'n gweithio i ffermwyr ac yn gwneud gwahaniaeth go iawn o ran datrys y problemau."

Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ymlaen i ddweud "Mae'r fiwrocratiaeth ychwanegol a'r gwaith llenwi ffurflenni i bob ffermwr gyda'r dull hwn yn annerbyniol, a chredwn na fydd wir yn datrys y problemau llygredd presennol. Hefyd mae angen inni sicrhau bod camau sy'n anelu at daclo llygredd yn cael eu cymryd ochr yn ochr â gwerthusiad o'r effaith ar hyfywedd systemau ffermio, yn enwedig y rhai hynny sy'n bwysig i gadwraeth, er enghraifft, pan fydd pori gwartheg yn chwarae rôl bwysig o ran cynnal cynefinoedd a rhywogaethau yn ardaloedd yr ucheldir".

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cloi drwy ddweud: "Ni allwn bwysleisio digon ein siom nad oes gan Lywodraeth Cymru fwy o awydd i ddatrys y broblem hon, a gweithio mewn ffordd adeiladol gyda ffermwyr a thirfeddianwyr, yn hytrach na chyflwyno deddfwriaeth sydd wedi dyddio erbyn hyn."

Mewn cyferbyniad, mae aelodau Is-grŵp Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, gan gynnwys sefydliadau ffermio, amgylcheddol a thirfeddiannaeth, yn ogystal â Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi dangos uchelgais o'r fath, ac wedi gweithio'n ddiflino i gynhyrchu 45 o argymhellion manwl, sy'n anelu at dargedu llygredd amaethyddol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac ar sicrhau bod adnoddau wedi'u targedu ar y manau lle nodwyd problemau llygredd.

Roedd y rhain yn rhan o adroddiad manwl a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2018, ac eto yn y 22 mis ers hynny, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb mewn unrhyw fanylder i'r adroddiad hwn, ond yn hytrach wedi dewis copïo rheoliadau nitradau ddegawdau oed yr UE, a'u rhoi ar waith ar draws Cymru gyfan.

Yn ddiamau, mae un achos o lygredd un yn ormod, beth bynnag yw'r ffynhonnell, ond mae tystiolaeth ddigamsyniol ar gael y bydd yr hyn a gynigir gan Lywodraeth Cymru'n cael effaith economaidd ac amgylcheddol ddifrifol, a byddai dull arloesol sydd wedi'i dargedu a'i deilwra i gwrdd ag anghenion penodol Cymru yn fwy buddiol o lawer i'n gwlad.

Rwy'n eich annog unwaith eto felly i bleidleisio i ddiddymu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ar y 3ydd o Fawrth.

Yr eiddoch yn ffyddlon

Eich llofnod \_\_\_\_\_